
Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir y Fflint 2015-2030
Flintshire County Council Local Development Plan 2015-2030
Examination

Arolygydd/Inspector: Siân Worden: BA DipLH MCD MRTPI
Arolygydd Cynorthwyol/Assistant Inspector: Claire MacFarlane BSc (Hons) MSc MRTPI
Swyddog Rhaglen/Programme Officer: Kerry Trueman

Mr A Roberts
Cyngor Sir y Fflint
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3FF.

3 Tachwedd 2021

Annwyl Mr Roberts

Yn dilyn ein llythyr blaenorol mewn perthynas â dyraniad Warren Hall, rydym yn deall y bydd o gymorth i chi i egluro'r sefyllfa i'ch aelodau os byddem yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ar ein penderfyniad.

Yn ein hadroddiad byddwn, wrth gwrs yn mynd i mewn i'r mater hwn mewn manylder a drwy gyfeirio at y dystiolaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn gobeithio y bydd yn ddigonol i ddweud mai ein pryder sydd heb ei ddatrys yw na fyddai'r tai arfaethedig mewn lleoliad wedi'i gysylltu'n dda neu lleoliad agosaf i fod yn hygyrch yn aml drwy unrhyw fodd o gludiant heblaw am gar preifat. Nid ydym yn credu y byddai'r nifer sylweddol o dai fforddiadwy arfaethedig neu ansawdd uchel ac effeithlonrwydd ynni'r unedau yn ddigon i orbwysu'r niwed a achoswyd gan, yr hyn a ystyrir sydd yn lleoliad anghynaliadwy.

Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gydag Airbus a Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi ein sicrhau na fyddai'r cyfyngiadau o'r llwybr hedfan mewn perthynas ag uchder a lleoliad y datblygiad ar y dyraniad arfaethedig yn achosi cyfyngiadau anorchfygol. Rydym yn parhau'n bryderus y byddai sŵn o'r maes awyr yn lleihau pleser meddianwyr o'u cartrefi ac yn arbennig eu gerddi yn y dyfodol. Oherwydd y nifer isel o hediadau yn y maes awyr, fodd bynnag, mae'r pryder hwn yn cefnogi ein penderfyniad ond nid yw'n gyfiawnhad digonol yn ei hun.

Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol ond mae croeso i chi gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Yn ddiffuant

Siân Worden a Claire MacFarlane

Arolygwyr